Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 15 Ionawr 2007

Teitl: Prifysgol i sefydlu canolfan egni adnewyddadwy

Mae prifysgol yng Nghymru ymhlith un o saith yn y DU a fydd yn derbyn arian drwy'r Cynllun Gwobrau Gwyddoniaeth ac Arloesedd eleni.

Mae Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd wedi ennill £3.8 miliwn i greu Canolfan Cynhyrchu a Chyflenwi Egni Adnewyddadwy Integredig yn dilyn cystadleuaeth sydd ar agor i holl brifysgolion y DU.

Bydd y Ganolfan, a fydd yn cael ei chyllido'n bennaf gan y Cyngor Ymchwil Gwyddorau Peirianegol a Ffisegol, gyda chyfraniad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn canolbwyntio ar ymchwil i ffynonellau egni adnewyddadwy. Bydd hefyd yn gweithio i ddenu rhagor o fyfyrwyr i astudio'r pwnc ac i ddod yn ymchwilwyr a pheirianwyr y dyfodol ym maes technoleg egni adnewyddadwy.

Pwrpas y gwobrau yw ysgogi a chryfhau ymchwil mewn meysydd a fydd yn helpu ymchwil yn y DU i barhau'n gystadleuol, a Phrifysgol Caerdydd oedd yr unig sefydliad yn y DU i dderbyn gwobr am ymchwil ym maes egni adnewyddadwy.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, "Mae'r cyhoeddiad hwn yn arwyddocaol i'r brifysgol, i Gymru a thu hwnt. Llwyddodd Caerdydd ennill cryn dipyn o arian ar gyfer y Ganolfan newydd yn erbyn cystadleuaeth gref drwy'r DU, ac mae hyn yn glod i bolisi gwyddoniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y ganolfan newydd yn gwneud cyfraniad o bwys i ymchwil i gynhyrchu a chyflenwi egni adnewyddadwy ar hyd a lled y byd."

Meddai'r Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr yr Ysgol Beirianneg, "Mae angen datblygu atebion tymor-hir i broblemau egni drwy gydweithrediad rhyngwladol sy'n pontio'r disgyblaethau. Bydd y Ganolfan newydd hon yn yr Ysgol Beirianneg yn galluogi Caerdydd i ddod yn arweinydd byd ym maes ymchwil i egni adnewyddadwy."

Diwedd

Nodiadau

Cysylltiad ar gyfer gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Y Gwobrau Gwyddoniaeth ac Arloesedd

Cyhoeddwyd enillwyr trydedd flwyddyn y Gwobrau Gwyddoniaeth ac Arloesedd ar 20 Rhagfyr 2006 gan y Cyngor Ymchwil Gwyddorau Peirianegol a Ffisegol.

Rhoddwyd cymorth ariannol i adeiladu sylfaen ymchwil y DU ym meysydd Dadansoddi Mathemategol, Egni Adnewyddadwy, Peirianneg Gemegol yn y Rhyngwyneb Gwyddorau Bywyd, Cydlyniad Cwantwm, a Chemeg Organig Ffisegol.

Bydd y Cyngor Ymchwil, ynghyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cyngor Cyllido'r Alban a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn cyllido 7 rhaglen newydd sy'n werth dros £31 filiwn.

Cyflwynwyd y Gwobrau Gwyddoniaeth ac Arloesedd gan y Cyngor Ymchwil yn 2005 i gefnogi meysydd ymchwil strategol sydd mewn perygl arbennig.

Dyfarnwyd y 7 gwobr i'r prifysgolion a ganlyn:

- Prifysgol Rhydychen
- Prifysgol Caeredin a Phrifysgol Heriot-Watt
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Sheffield
- Prifysgolion Ystrad Clud a Glasgow
- Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen a Choleg Imperial Llundain
- Prifysgolion Birmingham a Nottingham

Y Ganolfan Cynhyrchu a Chyflenwi Egni Adnewyddadwy Integredig

Mae **Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd** wedi derbyn £3.8 miliwn i greu Canolfan Cynhyrchu a Chyflenwi Egni Adnewyddadwy Integredig.

Bydd y Ganolfan hon yn adeiladu ar natur ryngddisgyblaethol a'r integreiddio a fu rhwng yr ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn sefydlu grŵp amlddisgyblaethol y mae ganddo arbenigedd rhyngwladol ym meysydd cynhyrchu a chyflenwi egni adnewyddadwy. Bydd y grwpiau sgiliau sydd eu hangen yn cynnwys y rheiny sy'n cyfrannu at ddatblygu "Gridiau Smart" y dyfodol, ffynonellau cynhyrchu (gan roi blaenoriaeth i egni o'r môr a thechnoleg cell danwydd), a thechnolegau galluogi ar gyfer integreiddio systemau (electroneg pŵer, rheolaeth a chyfathrebiadau). Un o nodau eraill y Ganolfan yw cynyddu nifer y graddedigion ym maes egni, gan gyfuno hyn â hybu egni yn ddewis ymchwil, a'r addewid o wneud cynnydd da yn y maes ymchwil a ddewisir.

Cysylltiad: Yr Athro Hywel Thomas, Ffôn: 029 2087 4965, E-bost: **thomashr@cf.ac.uk**

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.